Mark Drakeford AC / AM
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Gwasanaethau

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref SF/MD/1129/15

David Rees AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

6 Mai 2015

Annwyl David,

Diolch ichi am eich llythyr 2 Ebrill yn gofyn cyfres o gwestiynau yn sgil fy mhresenoldeb yn sesiwn gyffredinol a chraffu ariannol y Pwyllgor. Atebaf bob un yn ei dro.

Darparu gwybodaeth ystadegol gefndir am nifer yr unigolion yng Nghymru sydd â salwch cronig a'r nifer sy'n cael triniaethau

Mae'r mesur o nifer yr unigolion sydd â chlefyd cronig yn cael ei benderfynu gan y categorïau o glefydau a gynhwysir a'r dull asesu. Mae'r ffynonellau'n cynnwys data a adroddir gan yr unigolyn, cofrestri clefydau cronig Ymarferwyr Cyffredinol ac amcangyfrifon ymchwil. Mae'r gyfran o'r boblogaeth y mae salwch cronig yn effeithio arni yn cael ei phennu gan i ba raddau y mae un neu ragor o gyflyrau'n cydfodoli mewn cleifion unigol.

Data a adroddir gan yr unigolyn - Arolwg Iechyd Cymru (2013)

Dywedodd 33% o oedolion fod eu gweithgareddau o ddydd i ddydd yn gyfyngedig oherwydd problem iechyd/anabledd sy'n para (neu y disgwylir iddo bara) o leiaf 12 mis, gan gynnwys 16% a oedd yn dra chyfyngedig.

Dywedodd yr ymatebwyr i'r arolwg fod:

14% o oedolion yn cael eu trin ar hyn o bryd am glefyd anadlol**;**
12% am salwch meddwl**;**
8% am gyflwr y galon**;**
20% am bwysedd gwaed uchel**;**
7% am diabetes; a,
12% am arthritis.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0300 0603300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0300 0604400
Correspondence.Mark.Drakeford @wales.gsi.gov.uk

Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)
Printed on 100% recycled paper

Cofrestri clefydau cronig Ymarferwyr Cyffredinol

Mae'r Fframwaith Ansawdd a Chanlyniadau (QOF) yn gwobrwyo Practisau Ymarferwyr Cyffredinol am ddarparu gofal cyson yn seiliedig ar dystiolaeth. Mae gan gofrestri clefydau QOF rôl o bwys wrth ddiffinio'r boblogaeth y mae'r prif glefydau cronig yn effeithio arni fel y gellir mesur i ba raddau y mae arferion a seilir ar dystiolaeth yn cael eu cymhwyso.

Mae nifer yr achosion a gofnodwyd ar gyfer 2013/14 yng nghofrestri clefydau Practisau Ymarferwyr Cyffredinol yn cynnwys:

219,238 (6.9%) o gleifion o unrhyw oedran ag asthma**;**
68,419 (2.2%) o gleifion â chlefyd cronig rhwystrol yr ysgyfaint (COPD)**;**
158,354 (5.0%) o gleifion 18 oed a throsodd sydd â diagnosis newydd o iselder**;**
122,688 (3.9%) o gleifion o unrhyw oedran â chlefyd coronaidd y galon (CHD)**;**
60,348 (1.9%) â ffibriliad atrïaidd**;** a,
177,212 (5.6%) o gleifion 17 oed neu drosodd â diabetes.

Cyfraddau amlder yr achosion o glefydau a hysbyswyd 2013/14

Mae cyfanswm mesurau o amlder cyflyrau cronig yn cael ei chwyddo gan fod ffactorau risg megis pwysedd gwaed uchel yn cael eu cynnwys. Nid clefyd cronig mo hwn, ond gellir ei reoli trwy newid ymddygiadol neu driniaeth feddygol i leihau'r risg o gyflyrau megis strôc neu glefyd cardiofasgwlaidd.

Yng Nghymru**,** nifer yr achosion a gofnodwyd o bwysedd gwaed uchel yw 493,103 (15.6%).

Roedd cofrestr Arthritis Gwynegol QOF am 2013-14 yn cynnwys 21,346 (0.7%) o gleifion 16 oed a throsodd.

Gan fod modd i gleifion gael eu cynnwys ar fwy nag un gofrestr glefydau, mae cyfanswm yr holl gofrestri'n fwy na'r boblogaeth y mae cyflyrau cronig yn effeithio arni.

Y boblogaeth y mae salwch cronig yn effeithio arni

Mae i ba raddau y mae mwy nag un cyflwr (afiachusrwydd lluosog) yn effeithio ar unigolion yn dylanwadu ar gyfanswm y gyfran o'r boblogaeth y mae cyflyrau cronig yn effeithio arni.

Mae amlder cyffredinol afiachusrwydd lluosog, a ddiffinnir fel presenoldeb un neu ragor o gyflyrau, wedi cael ei amcangyfrif yn 27.1% yn achos dynion a 33.3% yn achos menywod.

Mae cysylltiad cryf rhwng afiachusrwydd lluosog a gordewdra ac mae'n fwy cyffredin ymhlith poblogaethau amddifad.

Crynodeb

Dywedodd 33% o oedolion fod eu gweithgareddau o ddydd i ddydd yn gyfyngedig oherwydd problem iechyd / anabledd**;**
Pennir y nifer absoliwt gan y cyflyrau a gynhwysir**;**
Y clefydau mwyaf cyffredin a gofnodir mewn cofrestri gofal sylfaenol yw asthma (6.9%), diabetes (5.6%), diagnosis newydd o iselder (5%) a chlefyd coronaidd y galon (3.9%)**;**
Mae ffactorau risg cyffredin, megis pwysedd gwaed uchel, yn cael eu cynnwys yn aml mewn amcangyfrifon o'r boblogaeth a chyfraddau amlder clefydau a adroddir gan gleifion**;** a,

Mae cyd-afiachusrwydd (presenoldeb dau neu ragor o gyflyrau mewn unigolyn) yn fwy cyffredin ymhlith menywod na dynion ac yn cynyddu gydag oedran ac amddifadiad cymdeithasol-economaidd.

Meddyginiaeth

Yn Arolwg Iechyd Cymru (2013), dywedodd 53% o oedolion eu bod yn cymryd meddyginiaeth reolaidd wedi'i rhagnodi.

Canran yr oedolion sy'n adrodd eu bod ar feddyginiaeth reolaidd wedi'i rhagnodi yn ôl grŵp oedran (am flwyddyn neu fwy) - Arolwg Iechyd Cymru 2013



Mae rheolaeth feddygol cyflyrau cronig yn cael ei darparu ym maes gofal sylfaenol yn bennaf.

Mae data rhagnodi'n[1] adrodd ar yr holl bresgripsiynau a weinyddir gan fferyllwyr cymunedol a meddygon fferyllol yng Nghymru. Mae hyn yn darparu mesur o hyd a lled rhagnodi.

Cynyddodd nifer yr eitemau presgripsiwn a weinyddwyd yn y gymuned o 76.2 miliwn yn 2013 i 78.5 miliwn yn 2014 (cynnydd o 3%).
Meddyginiaethau i drin y system gardiofasgwlaidd yw'r grŵp mwyaf o safbwynt eitemau presgripsiwn (23.6 miliwn) ond cyffuriau i drin y system nerfol ganolog yw'r grŵp mwyaf o safbwynt cost (£127.3m)**.**

Nid oes data arferol ar gael ar gyfer nifer y cleifion â chyflyrau cronig sy'n cael triniaeth. Er hynny**,** mae amcangyfrifon o eitemau presgripsiwn y pen yn cael eu cyfrif ar gyfer y prif glefydau cronig.

Penodau yn y llyfr fformiwlâu rhagnodi	Eitemau (miloedd) 2014	Eitemau y pen (2014)[2]
Y System gastroberfeddol	6,997	2.3
Y System gardiofasgwlaidd	23,571	7.6
Y system resbiradol	5,655	1.8

[1] Ffigur dros dro yw ffigur 2014 ac fe'i seilir ar amcangyfrif canol blwyddyn o'r boblogaeth 2013
[2] Ffigur dros dro yw ffigur 2014 gan ei fod yn seiliedig ar amcangyfrif canol blwyddyn o'r boblogaeth

Y System nerfol ganolog	15,399	5.0
Y System Endocrin	7,239	2.3
Clefydau cyhyrysgerbydol a'r cymalau	2,442	0.8
Croen	2,657	0.9

Yn 2014**,** nifer yr eitemau presgripsiwn a gafodd eu gweinyddu i bob pen o'r boblogaeth oedd 25.5 (mae hyn yn cynnwys meddyginiaethau ar gyfer rheoli cyflyrau cronig ac ystod o eitemau eraill ar bresgripsiwn megis brechiadau, gorchuddion a chyfarpar).

Rhwng 2004 a 2014, cynyddodd nifer yr eitemau presgripsiwn a gafodd eu gweinyddu i bob pen o'r boblogaeth 7.2 (40%).

Ysgrifennu at y Pwyllgor i ddarparu manylion dyraniadau'r rhaglen gyfalaf yng nghynllun tair blynedd drafft Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, gan gyfeirio'n benodol at unrhyw gynlluniau ar gyfer datblygu Adran Argyfwng Ysbyty Gwynedd

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn datblygu ei gynlluniau ar gyfer cyflunio gwasanaethau felly mae angen i unrhyw ddatblygiadau cyfalaf arfaethedig gael eu hystyried yn y cyd-destun hwn.

O safbwynt arian cyfalaf, mae mwy na £36m yn cael ei ddyrannu i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn 2015-16 ar gyfer ei raglen ddewisol a chynlluniau unigol sydd wedi'u cymeradwyo, gan gynnwys ailddatblygu Ysbyty Glan Clwyd, Canolfan Gofal Sylfaenol Llangollen, Uned Mân Anafiadau newydd yn Ysbyty Llandudno ac Ysbyty Cymunedol Tywyn. Mae nifer o achosion busnes yn cael eu datblygu a disgwylir iddynt gael eu cyflwyno yn y flwyddyn i ddod, gan gynnwys Canolfannau Adnoddau Gofal Sylfaenol newydd ym Mlaenau Ffestiniog a'r Fflint.

O safbwynt yr Adran Argyfwng yn Ysbyty Gwynedd, mae arian cyfalaf o £7.5miliwn wedi cael ei glustnodi ym Mlaenraglen Gyfalaf y GIG i gefnogi'r datblygiad hwn ond fel yn achos pob datblygiad rhaid i'r arian fod yn destun achos busnes cadarn ac mae'r bwrdd iechyd yn dal i gwblhau'r achos busnes yn gysylltiedig â rhai o'r newidiadau gwasanaeth ehangach sy'n cael eu hystyried.

Adolygu canllawiau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â newid gwasanaethau Byrddau Iechyd er mwyn sicrhau ei fod yn darparu'n ddigonol ar gyfer ymgysylltu â staff y gallai hyn effeithio arnynt

Mae fy swyddogion wrthi'n ystyried â rhanddeiliaid allweddol y ffordd orau o gryfhau'r canllawiau cenedlaethol ar newid i'r gwasanaeth i sicrhau ymgysylltiad parhaus effeithiol gan y Byrddau Iechyd â'u staff a chymunedau lleol fel rhan o'r broses o newid gwasanaethau.

Roedd hwn yn un o argymhellion allweddol yr adolygiad gwersi a ddysgwyd gan Ann Lloyd CBE yn sgil cwblhau tri ymarfer ymgysylltu ac ymgynghori a gynhaliwyd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a'r pum Bwrdd Iechyd a oedd yn rhan o Raglen De Cymru. Caiff cynnydd yn erbyn y safonau newydd ar gyfer ymgysylltiad parhaus gan Fyrddau Iechyd â'u staff ac fe gaiff cymunedau lleol eu monitro trwy eu Cynlluniau Tymor Canol Integredig (IMTPs).

Byddai’r Pwyllgor hefyd yn croesawu nodyn yn rhoi manylion y canllawiau sydd ar gael i fyrddau iechyd mewn perthynas â lefelau diogel defnyddio meddygon locwm

Mae'r defnydd o feddygon locwm yn fater gweithredol i fyrddau iechyd unigol ei reoli, sy’n gofyn am ddefnyddio barn broffesiynol. Mae lefel y defnydd o feddygon locwm yn dibynnu ar nifer o ffactorau gan gynnwys cymysgedd o sgiliau lleol, natur y gwasanaeth clinigol o dan sylw ac anghenion y claf, hyd y trefniadau, alefel y cymorth sydd ar gael gan feddyg ymgynghorol ar bob shifft. Mae swyddogion yn archwilio gyda chyflogwyr y GIG a oes angen am ganllawiau gan Lywodraeth Cymru ar ddefnyddio meddygon locwm. Mae'r Bwrdd Cyflawni Dilysu yng Nghymru hefyd wedi cytuno ar ganllawiau i alluogi swyddogion cyfrifol GMC, Byrddau Iechyd, Ymddiriedolaethau ac asiantaethau i rannu gwybodaeth ym maes llywodraethu clinigol a chyflogaeth am feddygon locwm.

Gwnaethoch ymrwymiad yn ystod y trafodaethau ar 19 Mawrth i ddweud wrth y Pwyllgor pan fydd yr adroddiad cenedlaethol ar hapwiriadau Ymddiried mewn Gofal o wardiau iechyd meddwl pobl hŷn Nghymru yn cael ei gyhoeddi. Byddai o gymorth pe gallech roi amcangyfrif o pryd rydych yn meddwl y caiff yr adroddiad ei gyhoeddi.

Disgwylir cyhoeddi’r adroddiadau cenedlaethol a lleol am yr hapwiriadau hyn cyn toriad yr haf. Caiff yr adroddiadau hyn eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru.

Yn gywir

Mark Drakeford AC / AM
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Gwasanaethau